

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Nos Lun Gorffennaf 6ed 2015 am 7.30 y.h.

Cofnodion

Yn absenoldeb y Cadeirydd Paul Weston cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Alun Owen.

1 a) Roedd Steven Teale wedi cytuno bod yn bresennol yn y cyfarfod i drafod y clawdd terfyn o amgylch y toiledau ond ni welwyd ef. Ni chafwyd ymddiheuriad nac ychwaith eglurhad ganddo o fethu a bod yn bresennol. Penderfynwyd cysylltu gydag ef am eglurhad a hefyd i drefnu cyfarfod ar y safle.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Edmund Rees a Paul Weston.

2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Dewi Evans, Gari Jones, Alun Owen, Gwynfor Roberts a Dilwyn Roberts.

3. **Còd Ymddygiad:** Bu i Alun Owen ddatgan cysylltiad yn y mater **1a)** yn yr agenda.

4. **Cofnodion mis Mehefin:** cynigiwyd yn gywir gan Gari Jones gydag Alun Edwards yn eilio.

5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**

5.1. Zurich – gan mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ydi'r gysgodfa bysus derbyniwyd amcan bris o werth yr adeilad pe bai damwain yn digwydd ac angen ail adeiladu gan Ieuan Lloyd fel a ganlyn – codi o lefel llawr i fyny £10,690. 00 neu o'r sylfaen i fyny £12,840. 00. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r cwmni yswiriant i drafod y camau nesaf gydag yswirio.

6. **Gohebiaeth:**

6.1. C.B.S.C. Gwasanaeth Cofrestru – yn ystyried lleoli'r gwasanaeth yn Llandudno i arbed arian.

6.2. Merched y Wawr – derbyniwyd llythyr yn diolch am y cyfraniad.

6.3. HM Revenue and Customs TAW – wedi derbyn ad-daliad o £300.13.

7. **Talu Anfonebau:**

7.1. C.B.S.C – cynigiodd Gari Jones gyda Dewi Evans yn eilio ein bod yn talu'r anfoneb am Sgip gymunedol o £175.00 + TAW £35. 00 = **£210.00** gyda siec rhif **100244**.

7.2. Amaethwyr Corwen – ar gynigiad Gwynfor Roberts gyda Dewi Evans yn eilio talu'r anfoneb am y Decking Oil a Chompost o £25. 75 + TAW £5. 15 = **£30. 90** gyda siec rhif **100241**.

7.3. Crwstech – cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Gari Jones yn eilio talu am drwsio'r gliniadur o **£30.00** gyda siec rhif **100243**.

7.4. Cynigiodd Gari Jones gydag Alun Edwards yn eilio talu am bostio i Hacker Young £7 25 ac am y Cafnau blodau £5. 98 = **£13. 23** gyda siec rhif **100243**.

7.5. Meithrinfa Blodau Betws-y-Coed – ar gynigiad Dewi Evans gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu am flodau i'r pentref o **£31. 90** gyda siec rhif **100245**

7.6. Cradur.com – hyfforddiant – cynigiodd Gwynfor Roberts gydag Alun Edwards yn eilio talu'r anfoneb o **£75. 00** gyda siec rhif **100246**.

7.7. W Williams – trwsio ac ail osod mainc yn y parc picnic cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Dewi Evans yn eilio talu'r anfoneb o **£25. 00** gyda siec rhif **100242**.

8. **Cais Cynllunio:**

Cyfeirnod: 0/41809

Ymgeisydd: P Weston

Safle: Bryn Dedwydd, Pentrefoelas.

Cynllun: Tynnu amod rhif 3 caniatâd cynllunio cod 0/28847 i ganiatáu defnyddio'r eiddo fel anedd.

Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau i'r Cais.

9. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Dywedodd na fydd dim penderfyniad yn cael ei wneud hefo'r newidiadau yn ymwneud ar fapiau newid terfynau tan ar ôl yr etholiad nesaf.

10. **Unrhyw fater arall:**
- 10.1. Cradur.com yn cynnig edrych ar ôl y wefan ar gost o £150. 00 y flwyddyn y teimlad cyffredinol oedd y buasent well gofyn i rywun lleol edrych arni a rhoi help i'r clerc gosod dogfennau arno.
 - 10.2. Dean Cavey- Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu yn cyflwyno ei hun ac yn gobeithio mynychu'r cyfarfod nesaf.
 - 10.3. Cofrestr Buddiannau Aelodau – ar ôl edrych dros y ffurflenni penderfynwyd na fyddwn yn ei llenwi ar hyn o bryd.
11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Medi 7fed 2015 am 7.30 y.h.**

07.09.2015

Cyfarfod ychwanegol nos Lun Awst 17eg 2015

1.Ymddiheuriadau: Cynghorydd Alun Owen

2.Cod Ymddygiad: Bu i Gari Jones ddatgan cysylltiad yn y mater **4)** yn yr Agenda.

3.Aeth y Cynghorwyr o amgylch y pentrefi i edrych os oes angen gwelliannau neu waith cynal a chadw.
Roedd popeth i weld yn weddol yn eu lle.

Angen cysylltu gyda Chris Parry ynglŷn a'r biniau baw cŵn.

Wal yr afon dal heb ei drwsio angen cysylltu eto gyda Asiantaeth yr Amgylchedd.

4.Cais Cynllunio:

Cais Rhif 41964

Ymgeisydd Gari B Jones

Safle Fron Bella, Pentrefoelas

Cynllun Codi uned magu dofednod gan gynnwys seilos a gwaith cysylltiedig

Gadawodd y Cynghorydd Gari B Jones y cyfarfod cyn trafod y mater uchod.

Ar ol ymdrin ar Cais Cynllunio cytunwyd yn unfrydol ei gefnogi.

07.09.2015
